Hyrwyddo dewis a gwerth
i bob cwsmer nwy a thrydan

# Egluro Systemau Rheoli Prisiau

**Taflen ffeithiau 117** 12.03.13 www.ofgem.gov.uk

**Mae Ofgem, fel y rheoleiddiwr, yn pennu systemau rheoli prisiau ar gyfer y cwmnïau sy'n gweithredu rhwydweithiau nwy a thrydan Prydain. Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro pam bod angen systemau rheoli prisiau, sut maent yn gweithio a beth y maent yn ei olygu i ddefnyddwyr domestig.**

Mae Ofgem, fel y rheoleiddiwr, yn pennu systemau rheoli prisiau ar gyfer y cwmnïau sy'n gweithredu rhwydweithiau nwy a thrydan Prydain. Mae'r daflen ffeithiau hon yn egluro pam bod angen systemau rheoli prisiau, sut maent yn gweithio a beth y maent yn ei olygu i ddefnyddwyr domestig.

Mae systemau rheoli prisiau yn fodd i bennu faint o arian (refeniw a ganiateir) y gall y cwmnïau rhwydwaith ei ennill dros gyfnod y system rheoli prisiau. Mae'r cwmnïau hyn yn adennill eu refeniw a ganiateir o'r taliadau a godir ganddynt ar gyflenwyr sydd yn eu tro'n trosglwyddo'r costau hyn i gwsmeriaid. Pennwyd y refeniw hwn ar lefel sy'n cwmpasu costau'r cwmnïau ac sy'n caniatáu iddynt wneud adenillion rhesymol ar yr amod eu bod yn sicrhau gwerth i gwsmeriaid, yn ymddwyn yn effeithlon ac yn cyflawni eu targedau a bennwyd gan Ofgem.

### Ceir tair system rheoli prisiau ar wahân sy'n berthnasol i feysydd gwahanol o ran cludo ynni:

**Trawsyrru (RIIO-T1)** – Mae a wnelo'r system rheoli prisiau hon â thrawsyrru trydan foltedd isel a thrawsyrru nwy pwysedd uchel ar gyfer y cyfnod rhwng 2013 a 2021. Mae trawsyrru nwy yn cyfrif am tua 2% o fil defnyddiwr a thrawsyrru trydan yn cyfrif am 4%.

**Dosbarthu Nwy (RIIO-GD1)** – Mae a wnelo'r system rheoli prisiau hon â'r cyfnod rhwng 2013 a 2021 ar gyfer y cwmnïau sy'n cludo nwy ar bwysedd is i gartrefi a chwmnïau at ddefnydd domestig a masnachol. Mae dosbarthu nwy yn cyfrif am tua 10% o fil nwy defnyddiwr.

**Dosbarthu Trydan (RIIO-ED1)** – Mae a wnelo'r system rheoli prisiau hon â'r cwmnïau sy'n cludo trydan ar foltedd is i gartrefi a chwmnïau at ddefnydd domestig a masnachol ar gyfer y cyfnod rhwng 2015 a 2023. Mae dosbarthu trydan yn cyfrif am tua 16% o fil trydan defnyddiwr.

## Rôl RIIO

RIIO yw fframwaith newydd Ofgem ar gyfer pennu systemau rheoli prisiau. Dros y degawd nesaf mae'r cwmnïau rhwydwaith yn wynebu her nas gwelwyd ei thebyg wrth iddynt geisio sicrhau buddsoddiad sylweddol er mwyn cynnal rhwydwaith dibynadwy a diogel.

Fel y rheoleiddiwr, rhaid i Ofgem sicrhau y caiff y buddsoddiad hwn ei gyflawni am bris teg i ddefnyddwyr. Er mwyn helpu i wneud hyn, datblygodd Ofgem RIIO (Refeniw =Cymhelldaliadau+Arloesedd+Allbynnau) - model newydd sy'n seiliedig ar berfformiad ar gyfer pennu systemau rheoli prisiau'r cwmnïau rhwydwaith, a fydd bellach yn para wyth mlynedd. Cynlluniwyd RIIO i annog cwmnïau rhwydwaith i wneud y canlynol:

- arloesi er mwyn lleihau costau rhwydwaith ar gyfer defnyddwyr presennol a darpar ddefnyddwyr
- chwarae rhan lawn yn y gwaith o gyflawni economi carbon isel ac amcanion amgylcheddol ehangach
- buddsoddi'n effeithlon er mwyn sicrhau gwasanaethau diogel a dibynadwy parhaus
- sicrhau bod cwmnïau'n rhoi rhanddeiliaid wrth wraidd eu prosesau gwneud penderfyniadau

## Proses RIIO

O dan RIIO, mae Ofgem yn gofyn i gwmnïau gyflwyno cynlluniau busnes teg sy'n nodi sut y maent yn bwriadu cyflawni amcanion fframwaith RIIO. Mae'r broses yn dechrau gyda chyhoeddi dogfen strategaeth sy'n nodi'r fframwaith y bydd cwmnïau'n datblygu eu cynlluniau yn unol ag ef. Mae RIIO yn rhoi pwyslais mawr ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ac mae'n rhaid i gwmnïau gael barn rhanddeiliaid a dangos sut y caiff y farn hon ei defnyddio i ddatblygu eu cynlluniau.

Mae Ofgem yn adolygu'r cynlluniau hyn er mwyn pennu pa lefelau o driniaeth gymesur - hynny yw lefelau craffu - y byddwn yn eu cymhwyso. Os bydd cynllun busnes cwmni o ansawdd uchel iawn, byddwn yn penderfynu a ellir cytuno ar setliadau rheoli prisiau newydd y cwmni yn gynnar - h.y. cyflymu'r broses. Gofynnir i'r cwmnïau hynny na chaiff y broses ei chyflymu ar eu cyfer ailgyflwyno eu cynlluniau busnes i Ofgem.

## RIIO-GD1

Mae pedwar prif gwmni dosbarthu nwy yn gweithredu ym Mhrydain, sef y Grid Nwy Cenedlaethol, Rhwydwaith Scotia Gas, Northern Gas Networks ac Wales & West Utilities. Cyhoeddwyd penderfyniad Ofgem ynghylch eu pecyn rheoli prisiau ym mis Rhagfyr 2012.

Amcangyfrifir y bydd cynlluniau'r cwmnïau hyn yn cyflawni £9.7 biliwn er mwyn sicrhau bod ein rhwydweithiau nwy pwysedd is, sy'n dosbarthu nwy i gartrefi a busnesau, yn parhau'n ddiogel ac yn ddibynadwy.

Bydd yr arian yn ariannu'r gwaith parhaus o gynnal a chadw'r rhwydwaith dosbarthu nwy ledled Prydain, yn benodol y rhaglen gosod prif bibellau nwy newydd yn lle hen rai. Yn ogystal, byddai ein cynigion yn galluogi'r cwmnïau dosbarthu nwy i gysylltu hyd at 80,000 o gartrefi sydd mewn tlodi tanwydd â'r prif rwydwaith nwy, gan eu galluogi i gael gafael ar nwy, a allai fod yn ddewis amgen rhatach.

## RIIO-T1

### Yr Alban

Fel rhan o'r system rheoli prisiau trawsyrru (RIIO-T1), cyflwynwyd y broses hon ar gyfer Scottish Power Transmission a Scottish Hydro Electricity Transmission (SSE) a chadarnhawyd eu systemau rheoli prisiau ym mis Ebrill 2012. Mae'r systemau rheoli prisiau yn clustnodi tua £7 biliwn o fuddsoddiad ar gyfer rhwydwaith foltedd uchel yr Alban, gan sicrhau buddsoddiad sydd ei angen yn ddirfawr i ddatblygu seilwaith newydd yn lle hen seilwaith a galluogi mwy o gysylltiadau â chynhyrchwyr ynni adnewyddadwy.

### Cymru a Lloegr

Y Grid Cenedlaethol sy'n berchen ar rwydwaith trydan foltedd uchel Cymru a Lloegr a'r rhwydwaith nwy pwysedd uchel ledled Prydain. Cyhoeddwyd penderfyniad Ofgem ynghylch ei becyn rheoli prisiau ym mis Rhagfyr 2012. Mae'r cynigion hyn yn clustnodi tua £15.5 biliwn o fuddsoddiad i uwchraddio ac adnewyddu'r rhwydweithiau dros gyfnod y system rheoli prisiau.

## RIIO-T1 Cipolwg ar y Cynlluniau

| Yr Alban | Cymru a Lloegr |
|---|---|
| Tua £7 biliwn o fuddsoddiad | Tua £15.5 biliwn o fuddsoddiad |
| Ymhlith prosiectau allweddol mae cysylltiadau newydd posibl o dan y môr o ynysoedd yr Alban i'r tir mawr. | Ymhlith prosiectau mawr mae cebl nwydd o dan y môr sy'n cysylltu Cymru/Lloegr a'r Alban. |
| Amcangyfrifir y caiff dros 1,500 o swyddi eu creu o ganlyniad i uwchraddio seilwaith | Gallai tua 7,000 o swyddi gael eu creu, yn bennaf yng nghadwyn gyflenwi'r diwydiant adeiladu. |
| £470 miliwn ar gael i helpu i ariannu gwaith gosod ceblau o dan y ddaear ac amwynder gweledol ar gyfer seilwaith newydd | |
| Arian i wella amwynder gweledol seilwaith presennol mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol. | |
| Y gost flynyddol gyfartalog amcangyfrifedig ar filiau defnyddwyr yw £12 (nid yw hwn yn ffigur cronnol) [1] | |

[1] Am ddadansoddiad pellach gweler nodyn 3 yn y Datganiad i'r Wasg http://www.ofgem.gov.uk/Media/PressRel/Documents1/20121217-Press-Release-RIIO.pdf

## RIIO-ED1

Mae rhwydweithiau dosbarthu trydan yn cario trydan o'r rhwydwaith trawsyrru foltedd uchel i gartrefi a busnesau. Ym Mhrydain, mae 14 o weithredwyr rhwydwaith dosbarthu trydan trwyddedig, ac mae pob un yn gyfrifol am ardal benodol. Mae'r 14 o weithredwyr hyn yn eiddo i chwe grŵp gwahanol a nodir ar y map.




Bydd system reoli RIIO-ED1 ar waith rhwng 2015 a 2023, ac yn ystod y cyfnod hwn mae'n debygol y bydd cynnydd yn nifer y technolegau carbon isel a ddefnyddir fel pwmpiau gwres, cerbydau trydan, paneli solar a thechnolegau cynhyrchu gwynt sydd wedi'u cysylltu â'r rhwydwaith foltedd is. Bydd angen i'r gweithredwyr hyn sicrhau bod eu cynlluniau ar gyfer RIIO-ED1 yn hyblyg ac yn gallu ymdopi â'r cynnydd hwn yn y defnydd o dechnolegau carbon isel mewn modd cost effeithlon. Mae ein pecyn RIIO-ED1 yn cynnwys cymhellion ar gyfer gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu trydan trwyddedig sydd â'r nod o helpu i greu dyfodol carbon isel mewn modd cost effeithlon.

Ym mis Mawrth 2013 cyhoeddodd Ofgem y penderfyniad strategaeth a fydd yn sail i'r gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu trydan trwyddedig ddatblygu eu cynlluniau busnes. Mae crynodeb o'r pwyntiau allweddol ac amserlen ar gyfer y system reoli isod:

## Beth mae RIIO-ED1 yn ei olygu i ddefnyddwyr

**Dibynadwyedd gwell – cymhellion cryf i sicrhau cyflenwad dibynadwy**

- Mae ein cynlluniau'n rhoi hawliau gwell i ddefnyddwyr drwy leihau o 18 i 12 awr y cyfnod y mae gan gwsmeriaid yr hawl i gael taliadau os byddant heb bŵer am gyfnodau hir. Bydd lefel y taliadau hyn yn codi yn unol â chwyddiant
- Bydd yn rhaid i weithredwyr wneud y taliadau hyn yn awtomatig i gwsmeriaid sy'n agored i niwed.
- Bydd y taliadau hyn hefyd yn gymwys i bob cwsmer yn yr un ffordd, gan gynnwys y rheini sy'n byw ar Ucheldiroedd ac Ynysoedd yr Alban, a oedd wedi'u heithrio'n flaenorol.
- Bydd yr arian ar gyfer 'cwsmeriaid a wasanaethir waethaf' yn parhau er mwyn i weithredwyr wneud gwelliannau i'r rhwydwaith mewn lleoliadau mwy anghysbell. Cronfa a gaiff ei dileu os na chaiff ei defnyddio yw hon er mwyn sicrhau mai dim ond am yr hyn a ddarperir i gwsmeriaid y caiff cwmnïau eu hariannu.

**Boddhad Cwsmeriaid** – Rydym yn adeiladu ar Fesur Cyffredin Gwasanaeth Cwsmeriaid sy'n cynnwys asesiad annibynnol o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a hefyd arolwg cwsmeriaid. Yn ED1, rydym yn cynyddu'r cymhelliant a maint y gost os na chaiff targedau eu cyflawni.

**Cysylltiadau Cyflymach** – Rydym yn cyflwyno pecyn o gymhellion cysylltu sydd â'r nod o annog gweithredwyr i ddarparu gwasanaeth gwell wrth gysylltu cwsmeriaid, gan gynnwys y rheini sy'n cysylltu â thechnolegau carbon isel a thechnolegau cynhyrchu gwasgaredig eraill, fel paneli solar. Mae'r rhain yn cynnwys cymhelliant amser i gysylltu ar gyfer cwsmeriaid llai, arolygon boddhad cwsmeriaid a chymhelliant ymgysylltu ar gyfer cwsmeriaid mwy.

**Ffocws ar Rwymedigaethau Cymdeithasol** – Rydym yn disgwyl gweld tystiolaeth glir mewn cynlluniau busnes gweithredwyr sy'n dangos sut y byddant yn gweithio mewn partneriaeth ag aelodau eraill o'r diwydiant (er enghraifft cyflenwyr, gweithredwyr eraill, cwmnïau dosbarthu nwy a rhanddeiliaid ehangach) er mwyn rhannu gwybodaeth am gwsmeriaid sydd ar Gofrestrau Gwasanaeth â Blaenoriaeth a sut maent yn bwriadu targedu'r cymorth hwn. Cânt eu hasesu ar sail y modd y maent yn cyflawni'r gweithgareddau hyn ym mhob un o'r meysydd hyn, gyda'r perfformiad yn llywio'r modd y caiff dyfarniadau eu dyrannu gan ddefnyddio 'cerdyn sgorio cytbwys'.

**Ymhlith y gweithgareddau a'r ymddygiadau y bydd yn rhaid iddynt ymgymryd â hwy er mwyn cyflawni'r rôl hon yn RIIO-ED1 mae:**

- Gwella ansawdd y wybodaeth y gallant gael gafael arni am ddefnyddwyr sy'n agored i niwed a sut y caiff ei defnyddio er mwyn sicrhau bod y defnyddwyr hyn yn cael y cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.
- Ymgysylltu ag awdurdodau lleol, gweinyddiaethau datganoledig, darparwyr iechyd, cyflenwyr, dosbarthwyr ynni eraill (nwy a thrydan), darparwyr cyfleustodau eraill a grwpiau cymunedol. Dylai'r ymgysylltu hwn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio'r wybodaeth a ddelir ganddynt ar y cyd am gwsmeriaid mewn sefyllfaoedd sy'n agored i niwed.
- Rhoi cymorth i'r cwsmeriaid hynny sydd ar Gofrestr Gwasanaeth â Blaenoriaeth Gweithredwr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt.
- Manteisio ar gydberthnasau a meithrin partneriaethau â phartïon eraill er mwyn nodi a chyflawni datrysiadau (ynni ac fel arall) ar gyfer ynni fforddiadwy gan gynnwys i gwsmeriaid nad ydynt wedi'u cysylltu â'r grid nwy.
- Ymgorffori eu strategaeth ar gyfer bodloni gofynion cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn eu systemau, prosesau a'r ffordd y maent yn rheoli dulliau rhyngweithio â chwsmeriaid.

## Allbynnau Amgylcheddol :

Mae RIIO-ED1 yn cynnwys nifer o allbynnau sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, gan gynnwys:

- Cynllun ar gyfer gosod llinellau sy'n bodoli eisoes o dan y ddaear mewn ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol, parciau cenedlaethol ac ardaloedd prydferth cenedlaethol. Mae gan y cynllun hwn gronfa ariannu o £103.6 miliwn dros y cyfnod o 8 mlynedd.
- Gofyniad i weithredwyr gyflwyno adroddiadau blynyddol ar ôl troed carbon eu busnes, gan gynnwys sylffwr hecsafflworid. Bydd Ofgem yn cyhoeddi tabl cynghrair o berfformiad gweithredwyr yn yr Adroddiad Blynyddol ar Ddosbarthu Trydan.

## Arloesedd:

Bydd RIIO-ED1 yn cynnwys cymhelliant i arloesi, sy'n cynnwys tair elfen:

- Cystadleuaeth Arloesi'r Rhwydweithiau - mae'r gystadleuaeth hon yn disodli'r Gronfa Rhwydweithiau Carbon Isel a bydd yn gymwys i gwmnïau trawsyrru a dosbarthu trydan. Dros ddwy flynedd gyntaf ED1, bydd cronfa'r Gystadleuaeth ar gyfer trydan yn £90 miliwn y flwyddyn (gan ychwanegu £60m at y £30m a ymrwymwyd eisoes yn RIIO-T1).
- Lwfans Arloesi'r Rhwydwaith - Akin i Haen 1 y Gronfa Rhwydweithiau Carbon Isel, sydd â'r nod o ariannu prosiectau arloesi ar raddfa fach. Achosion o fethu â chyflawni gwerth o fewn 0.5% o refeniw a ganiateir oni bai bod cwmnïau yn rhagori mewn perthynas ag arddangos cynllun arloesi trylwyr o fewn 1% o refeniw a ganiateir.
- Y System Cyflwyno Arloesedd - system i alluogi cwmnïau i wneud cais am arian ychwanegol er mwyn cyflwyno datblygiad arloesol a brofwyd, sy'n bodloni meini prawf penodol.

## RIIO-ED1 amserlen

| Cam | Blwyddyn | Mis | Carreg Filltir |
|---|---|---|---|
| Datblygu Strategaeth | 2013 | Mawrth | Cyhoeddi Penderfyniad Strategaethol |
| Asesu'r Cynllun Busnes Cychwynnol a Phenderfyniad Cyflym | | Gorffennaf | Gweithredwyr yn cyflwyno ac yn cyhoeddi cynlluniau busnes<br>Gwahodd sylwadau (4 wythnos) |
| | | Medi | Cyfarfodydd dwyochrog rhwng gweithredwyr â'r Grŵp Her Defnyddwyr<br>Cyfarfodydd dwyochrog â'r Pwyllgor Awdurdod |
| | | Hydref | Asesiad cychwynnol a chyhoeddi Penderfyniad Drafft cyflym<br>(ymgynghoriad 8 wythnos) |
| | 2014 | Chwefror | Cyhoeddi Penderfyniad Terfynol Cyflym |
| Penderfyniadau Drafft a Therfynol a Lansio | | Mawrth | Gweithredwyr na chawsant benderfyniad cyflym yn ailgyflwyno ac yn cyhoeddi cynlluniau busnes<br>Gwahodd sylwadau (4 wythnos) |
| | | Gorffennaf | Cyhoeddi Penderfyniad Drafft nad yw'n benderfyniad cyflym<br>(ymgynghoriad 8 wythnos) |
| | | Tachwedd | Cyhoeddi Penderfyniad Drafft nad yw'n benderfyniad cyflym |
| | | Rhagfyr | Ymgynghoriad Statudol (28 diwrnod) ar addasu trwyddedau |
| | 2015 | April | Dydd Mercher 1af – system rheoli prisiau newydd (ED1) yn dechrau |

Am ragor o ymholiadau gan y cyfryngau:

**Lisa O'Brien, Uwch Rheolwr Cyfathrebu**

Tel: 020 7901 7426 e-bost: lisa.obrien@ofgem.gov.uk